

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ebrill 27ain 2015 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **04/15 PRESENNOL:** Cynghorwyr: Adrian Thomas[Cadeirydd], Brenda Jones, Christopher Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Caroline Roberts. Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng.Sir - K Howell, Cyfieithydd, aelodau o'r cyhoedd

2. **04/15 HEDDLU:** J Kedward – ymwelwyd a'r safleoedd a nodwyd gan y Clerc ac roedd popeth i weld yn iawn.

3. **04/15 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Jamie Ayres, John Crossley, Ian Davies, Delyth Evans, Nesta Jones

4. **04/15 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mawrth 27ain 2015 a'u cael yn gywir gyda'r newid fod Marc Rees a Jamie Ayres ddim yn y cyfarfod.

Cynigydd – Cyng. M Phillips
Eilydd – Cyng. C Jones

5. **04/15 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim

6. **04/15 MATERION YN CODI :**

12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – nododd Cyng C Roberts taw dim ond lluniau sydd eisiau eto

12.i.c) Pwyllgor T Llew Jones – Bwrdd Coffa – dwedodd y Clerc ei bod wedi rhoi cais mewn i'r Cyngor Sir am ganiatâd i osod y plac ar y safle ym Mhentrecwrt.

12.iii.a) 02/15 Sbwriel ar y palmant yn Felindre – CSG wedi addo dod allan a brwsh hewl a gweithiwr, heb ddod eto.

b) Sbwriel ar yr hewl o Pantybarcud i'r pentref – dwedodd Cyng C Roberts bod gwelliant yno

6.i. Pwyllgor y Parc – Clerc i gysylltu gyda Eifion Davies i weld pa ddogfen sydd ganddo.

12.ii.03/15 Arwyddion dim parcio i linellau melyn – does dim angen rhain bellach.

7. **04/15 GOHEBIAETH:**

i. CSG – Hyfforddiant ynghylch y Côd Ymddygiad yn Neuadd y Sir ar 4ydd neu 9ed o Fehefin 2015 – cyfle i unrhyw aelod o'r Cyngor fynychu

ii. U.LI.C – Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin ar 28/04/15 yn Neuadd Llanddarog

iii. Ombwdsman – cyfeiriad cyswllt - www.ombudsman-wales.org.uk

iv. e-bost - CSG - Bwcabus – cylchlythyrydwyd

v. e-bost – CSG - Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – cylchlythyrydwyd a nodwyd

vi. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 23.02.2015 – 27.02.2015 – cylchlythyrydwyd

vii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – cylchlythyrydwyd

viii. e-bost – Corylus Ltd – Hysbysiad Ymgynghoriad Cyhoeddus – ar baneli solar Fferm Blaen Bowi 22/04/15 Neuadd y Ddraig Goch rhwng 6 a 9yh – cylchlythyrydwyd a nodwyd

ix. e-bost – Ymateb Un Llais Cymru i'r Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol – Fersiwn Cymraeg – cylchlythyrydwyd anodwyd

x. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 30.03.2015 – 03.04.2015 – cylchlythyrydwyd

xi. e-bost – CSG – Penybanc Farm, Drefach Felindre: Hysbysiad o Gais am Drwydded – cylchlythyrydwyd

xii. e-bost – CSG – Wythnos Arfordir Glân 2015 8-17 o Fai – cylchlythyrydwyd a nodwyd

xiii. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 23.02.2015 – 27.02.2015 – cylchlythyrydwyd

8. **04/15 CYNLLUNIO**

Caniatâd

W/31480 – Mr David Jones, tir ger The Old Post Office, Velindre – tystysgrif o gyfreithlondeb am ddefnydd presennol i ddechreuad gwaith perthnasol ar ganiatâd cynllunio W/22157(annedd newydd)

Cais Ymgynghori llawn

W/31797 – West Wales Homes Ltd – tir ochr arall i Pennant, Velindre SA44 5YG – cais llawn ar gyfer datblygiad o dŷ sengl gyda garej yng nghlwm – *gwrthwynebu ar sail perygl i drafnidiaeth*

W/31798 – M Baggott – tir ochr arall i Pleasant View, SA44 5YG – materion ar gadw i annedd ar amodau 2a7 ar W/27922 – *gwrthwynebu fel yr uchod*

W/31631 – Mr Steven George, tir yn Bwlchclawdd(cyfagos i Llyseinon), Rhos SA44 5EE – adeiladu annedd 4 stafell wely – *gwrthwynebu ar sail y byddai hyn yn creu datblygiad rhubanog/hirgul*

W/31841 – Raymond Jones, Cefn Isaf, Saron SA44 5DX – trawsnewid arfaethedig o ysgubor gerrig i ddau fwthyn gwyliau – *dim gwrthwynebiad*

9. **04/15 MATERION ARIANNOL**

a. Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 27/04/2015£60.00

ii.HIRIO NEUADD yr EGLWYS, PENBOYR – cyfarfod 27/04/15 £7.00

[caniatad i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

Arian yn y Banc ar 14/04/2015.....£8,232.13

Cytunwyd i'r Clerc i gylchlythyru'r cyfrifon er mwyn cael ei astudio a'i derbyn erbyn y cyfarfod nesaf.

10. 04/15 ADRODDIAD PWYLLGOR – bu'r Clerc mewn cyfarfod gan ULIC yn Neuadd Bronwydd ynghylch Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol

11. 04/15 MATERION ANGEN TRAFODAETH

i. Cadwyn y Cadeirydd – dwedodd Cyng J Wigley bod popeth gyda'r gwneuthurwyr ac ar waith.

12. 04/15 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng B Jones – soniodd bod drws y ciosg ym Mhentrecagal yn hongian yn beryglus – nododd Cyng J Wigley bod BT wedi tynnu'r drws i ffwrdd er mwyn diogelwch
- ii. Cyng C Roberts – dwedodd bod dwy garafán wedi cael eu gosod ar safle ar bwys Pantyrefail – nododd K Howell bod dim cais am gynllunio na dim arall ynghylch y lle .
- v. Cyng J Wigley – dwedodd bod y ceudwll ar yr hewl ger y Wichell wedi ei drwsio gan y Cyngor Sir.
- vi. Cyng C Jones – dwedodd bod coed yn tyfu'n uchel uwchben a thu ôl i'r sedd yng Nghwmpengraig(sydd yn cael ei atgyweirio gan gapel Soar) – Cyng K Howell i gael y Cyngor Sir i ddelio a'r mater.
- vii. Cyng A Thomas – codwyd y mater o gael rhyw fath o eitem coffa o fod wedi bod yn Gadeirydd – cytunwyd i'r Clerc i ddod ag enghraifft i'r cyfarfod nesaf ac i Cyng J Wigley ofyn i'r cwmni sy'n gwneud y cadwyn newydd am bris am gopi o gadwyn y Cadeirydd ond yn llai o faint.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol a Misol nesaf Nos Lun, Mai 18ed 2015, am 7.30y.h yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

